Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| TEITL | **Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| DYDDIAD | **4 Chwefror 2019** |
| GAN | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio mewn perthynas â Chymru**

- Rheoliad y Cyngor (Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd) Rhif 315/93 yn nodi gweithdrefnau'r Gymuned ar halogion mewn bwydydd
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 401/2006 yn nodi'r dulliau o samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol y lefelau o mycotocsinau mewn bwydydd
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1881/2006 yn pennu'r lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer rhai halogion mewn bwydydd
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1882/2006 yn nodi'r dulliau o samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol y lefelau o nitradau mewn rhai bwydydd
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 333/2007 yn nodi'r dulliau o samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli'r lefelau o elfennau hybrin a phrosesu halogion mewn bwydydd
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 124/2009 yn pennu'r lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer presenoldeb cocsidiostatau neu histomonostatau mewn bwyd o ganlyniad i drosglwyddo anochel y sylweddau hyn mewn bwyd anifeiliaid heb ei dargedu
- Rheoliad y Comisiwn (UE) 2015/705 yn nodi'r dulliau o samplu a'r meini prawf perfformiad ar gyfer y dulliau o ddadansoddi'r gwaith swyddogol o reoli'r lefelau o asid erwsig mewn bwydydd a diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/891
- Rheoliad y Comisiwn (UE) 2017/644 yn nodi dulliau o samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli lefelau o ddiocsinau, PCB sydd fel diocsinau a rhai nad ydynt mewn rhai bwydydd a diddymu Rheoliad (UE) Rhif 589/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) 2015/705 sy'n gosod dulliau samplu a meini prawf perfformiad ar gyfer y dulliau dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol lefelau asid erucic mewn bwyd ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/891/EEC

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pŵer deddfwriaethol presennol y Comisiwn Ewropeaidd o dan Reoliad UE 315/93 i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i

lunio rheoliadau, yn amodol ar ddirymiad trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol, i ddiwygio Rheoliad yr UE 1881/2006 i bennu'r goddefiadau uchaf a ganiateir ar gyfer halogion penodol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE, yn ymwneud â rheoleiddio rhai halogion mewn bwyd, gan gynnwys nitrad, mycotocsinau, metel a meddyginiaethau milfeddygol. Bydd yn gwneud diwygiadau technegol bach iawn i gyfraith yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol, a fydd yn sicrhau bod cwsmeriaid a gweithredwyr busnesau bwyd yn y DU yn parhau i gael eu diogelu yn erbyn halogiad mewn bwyd, a bod y gwaith o fonitro a gorfodi'r rheolau yn cael ei wneud mewn modd cyson ac effeithiol.

Mae un o’r diwygiadau i Reoliad 1881/2006 er mwyn cynnal y sefyllfa bresennol ar draws y DU, yn unol â rhanddirymu Rheoliad 1881/2006, sef y gellir rhoi cig a physgod mwg traddodiadol a fwriedir i’w bwyta yn y DU ar y farchnad os ydynt yn cydymffurfio â rhai cyfyngiadau halogion cyn 2014, hyd yn oed os nad yw gofynion mwy llym cyn 2014 yn cael eu bodloni. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i ddatgymhwyso’r rhanddirymiad hwn.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:
https://beta.parliament.uk/work-packages/6cpPiCQr

**Pam rhoddwyd caniatâd**
Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.